RHAGLENNI GWAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU
PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

'Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor: Economi (Adeiladu economi gref); Pobl (Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb); Lleoedd (Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o fyw a gweithio ynddyn nhw) yn ogystal â'i brif egwyddor, sef Byw o fewn ein Gallu.'

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig ei hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu rhoi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithrediad argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yn natblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Am y rheswm yma bydd y Rhaglenni Gwaith Craffu yn cael eu cyhoeddi am gyfnod o 6 mis a'u hadolygu bob chwarter.

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU					
Dyddiad/Amser	**Nod cyffredinol**	**Swyddog**	**Aelod o'r Cabinet**	**Gwahoddiad / Yn Bresennol**	**Craffu yn canolbwyntio ar...**
1 Gorffennaf 2019, 5pm **Siambr y Cyngor, Pencadlys y Cyngor, Cwm Clydach**	• Rhaglen Waith y Cabinet	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu	Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor	√	Sicrhau bod modd i'r pwyllgor craffu gael cyfle o benderfynu p'un ai yw e am graffu ar unrhyw eitem sydd ar Raglen Waith y Cabinet, gan adael digon o amser i sicrhau bod y cynigion yn cael eu hystyried mewn modd ystyrlon
	• Diweddariad o'r Adolygiad Trosolwg a Chraffu	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			**Craffu a Her** - Rhannu'r newyddion diweddaraf am yr adolygiad Trosolwg a Chraffu a dangos y deilliannau hyd yma (Cylch Gorchwyl Diwygiedig y Pwyllgor Craffu a Rhaglenni Gwaith drafft y Pwyllgor Craffu)
	• Rhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			**Craffu a Her –** Cyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried y rhaglenni gwaith sydd wedi'u datblygu gan y pedwar Pwyllgor Craffu

					â thema yn dilyn ymgynghoriad. Cytuno ar ei raglen waith ei hun ar gyfer 2019/20. (***Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i gael eu gwahodd i ddod i'r cyfarfod a chyfrannu at yr eitem yma ar yr agenda***)
	• Anghenion o ran Hyfforddiant	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			Trafod a datblygu rhestr o ofynion hyfforddi ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Arbennig **22 Gorffennaf 2019, 5pm** **Siambr y Cyngor, Cwm Clydach**	• Cyn Craffu - Moderneiddio Gofal Preswyl	• Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant • Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion • Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			**Craffu a Her** - Adroddiad i gynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad yn dilyn y broses ymgynghori a gynhaliwyd mewn perthynas â thrawsnewidiad strategol gofal preswyl yn Rhondda Cynon Taf Bydd y Pwyllgor Craffu yn cynnal gwaith cyn craffu ar gyfer canlyniadau'r ymgynghoriad cyn i'r Cabinet ystyried y mater. ***(Caiff Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Lles eu gwahodd i'r cyfarfod ac i gyfrannu at y broses yma)***

	• Adolygu Trefniadau Etholiadol gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	• Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol • Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			Ystyried Cynigion Drafft Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynghylch ei adolygiad o Drefniadau Etholiadol y Cyngor.
3 Medi 2019, 5pm Siambr y Cyngor, Cwm Clydach	• Gwaith Cyn Craffu ar gyfer Cynllun Corfforaethol y Cyngor	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			**Craffu a Her** - A yw'r Cynllun Corfforaethol yn annog gwelliant yn ansawdd yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys, ac a yw e'n herio effaith ddisgwyliedig y cynllun ar drigolion?
	• Pecyn Cymorth Craffu - (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)) Argymhellion y Gweithgor	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			Derbyn argymhellion y Gweithgor ar gyfer y Pecyn Cymorth Craffu (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)).
	• System Adborth Corfforaethol y Cyngor	• Rheolwr Adborth Cwsmeriaid, Ymgysylltu a Chwynion			**Craffu a Her** - Derbyn trosolwg o System Adborth Corfforaethol y Cyngor gyda'r bwriad o nodi themâu, tueddiadau a gwelliannau i'w hadolygu yn y dyfodol.

Y Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn (Yn ei rôl fel y Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn dynodedig (o dan Adrannau 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006))	• Cynllun Cyflawni Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu • Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Diogelwch y Cyhoedd			**Craffu a Her** –Gwerthuso a dewis llinynnau priodol o Gynllun Cyflawni Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf (sy'n tangyflawni) i'w hadolygu'n fanylach fel rhan o'i rôl fel y Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn.
7 Hydref 2019, 5pm Siambr y Cyngor, Cwm Clydach	• Adolygiad Chwarterol o'r Rhaglen Waith Craffu – Trosolwg a Chraffu	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			**Craffu a Her** - • A yw'r Rhaglen Waith yn addas ac yn berthnasol i'r Cylch Gorchwyl? • A yw'r Rhaglen Waith yn dangos canlyniadau ac amcanion clir? • Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhoi sylwadau mewn perthynas â'r Rhaglen Waith.
	• Ymgysylltu/Cynnwys y Cyhoedd mewn Gwaith Craffu	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			**Craffu a Her** - Sut rydyn ni'n cyflawni ein nodau i wella'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu â'r cyhoedd ym mhroses Graffu'r Cyngor?
4 Tachwedd 2019, 5pm Siambr y Cyngor, Cwm Clydach	• Asesiad Risg Tân - Adolygiad o'r Gweithdrefnau ar gyfer Adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu defnyddio gan y Cyngor	• Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch y Cyngor			**Craffu a Her –** Ystyried a yw argymhellion y Pwyllgor Trosolwch a Chraffu wedi cael eu gweithredu a'u rheoli'n effeithiol.

		• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			
2 Rhagfyr 2019, 5pm Siambr y Cyngor, Cwm Clydach	• Sesiwn Ymgysylltu – Y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu	Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor	√	**Craffu a Her –** Ystyried y cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo cyfrifoldebau portffolio'r Aelod y Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor

Meysydd Eraill i'w harchwilio:-

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Adroddiad Gwella Blynyddol
- Adroddiadau Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru

Anghenion Hyfforddi:-

I'w hystyried yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu cyntaf ym mis Gorffennaf

Gweithgorau Craffu Cyfredol:-

Pecyn Cymorth Craffu Gweithgor Cenedlaethau'r Dyfodol (Cerbydau Carbon Isel)